



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Strategaeth ar gyfer Atal a Roi Diwedd ar Digartrefedd

Hydref 2019

Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd

Diben y datganiad polisi hwn yw nodi dull strategol Llywodraeth Cymru o atal digartrefedd yng Nghymru a mynd i'r afael ag ef. Caiff y datganiad ei ategu gan gynllun gweithredu blynyddol a fydd yn nodi'r mesurau a roddir ar waith ym mhob rhan o'r Llywodraeth, gan gydweithio â phartneriaid, i fynd i'r afael â'r mater hwn. Caiff y cynllun gweithredu ei ddiweddarau bob blwyddyn a chaiff adroddiadau cynnydd ar gynllun y flwyddyn flaenorol eu cyhoeddi.

Gweledigaeth

Cymru lle mae pawb yn byw mewn cartref diogel sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a ffyniannus. Cymru lle rydym yn cydweithio i atal digartrefedd a, lle nad yw hynny'n bosibl, sicrhau ei fod **yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto.**

Ein gweledigaeth yw i ddigartrefedd fod yn beth anghyffredin a, phan fydd yn digwydd, ei fod yn fyrhoedlog a bod yr unigolyn neu'r aelwyd yn cael ei helpu i gael llety eto yn gyflym ac yn cael ei gefnogi'n ddigonol er mwyn sicrhau nad yw'n mynd yn ddigartref eto; gan roi aelwydydd mewn sefyllfa i lwyddo yn hytrach na methu.

Er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen i ni helpu pobl mewn argyfwng er mwyn iddynt allu cael llety hirdymor yn gyflym a ffynnu yno.

Mae angen i ni hefyd symud llawer mwy o'n hegni a'n hadnoddau tuag at atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Rydym yn glir **na ellir atal digartrefedd drwy ddarparu tai yn unig.**

Mae gan wasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector rôl i'w chyflawni er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon. Mae pob un o Weinidogion Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r dull gweithredu hwn ac rydym yn gofyn i bob awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd, Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac eraill i ymrwymo iddo hefyd.

Cefndir

Ystyr digartrefedd yw sefyllfa lle nad oes gan berson lety neu lle nad yw ei ddaliadaeth yn sicr. Cysgu allan yw pen mwyaf gweledol a difrifol y sbectwm digartrefedd, ond mae digartrefedd yn cynnwys unrhyw un sydd heb lety, unrhyw un sy'n methu â chael mynediad i'w lety neu unrhyw un nad yw'n rhesymol iddo barhau i feddiannu llety. Byddai hyn yn cynnwys gorlenwi, 'mynd o sofffa i sofffa', dioddefwyr camdriniaeth a llawer o senarios eraill. Mae rhywun hefyd yn ddigartref os yw ei lety'n strwythur symudol ac nad oes lle i'w osod.

Gall digartrefedd, neu'r risg o wynebu digartrefedd, gael effaith ddinistriol ar unigolion a theuluoedd. Mae'n effeithio ar iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant pobl ac ar ddatblygiad ac addysg plant, ac mae'n peri risg y bydd sefyllfa unigolion yn gwaethygu tuag at y mathau mwy difrifol o ddigartrefedd. Gall yr effeithiau fod yn

arbennig o ddinistriol os na ddeuir o hyd i atebion tai sefydlog a fforddiadwy a bod yn rhaid i bobl symud yn aml.

Egwyddorion Polisi

Ategir ein dull gweithredu ar gyfer digartrefedd gan nifer o egwyddorion, ac rydym yn disgwyl i'r egwyddorion hyn fod yn sail i waith ein partneriaid cyflawni a chael eu hadlewyrchu ar draws gwasanaethau cyhoeddus;

- Y mesurau atal cynharaf yw'r mwyaf effeithiol, y mwyaf cost-effeithiol, a'r rhai y dylid eu dewis gyntaf bob amser.
- Mae mynd i'r afael â digartrefedd a'i atal yn fater gwasanaethau cyhoeddus – yn hytrach na 'mater tai'.
- Dylai pob gwasanaeth sicrhau bod yr unigolyn wrth wraidd yr hyn a wna, a chydweithio mewn ffordd a gaiff ei llywio gan drawma.
- Ni ddylid troi at y dyletswyddau yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 tan fod popeth arall posibl wedi ei wneud yn gyntaf – a dylai pob gwasanaeth weithio yn ysbryd y ddeddf ac nid yn ôl llythyren y gyfraith yn unig.
- Dylai polisiâu, ymarfer a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu gael eu llywio a'u llunio mewn drwy gydgyngyrchu rhwng y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol.

Symud y ffocws

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen symud i ffwrdd o'r model 'grisïau' o flaenoriaethu ar sail teilyngdod, wrth ddarparu gwasanaethau.

Rydym yn ymdrechu i ail-lunio gwasanaethau yn seiliedig ar ddull ailgartrefu cyflym - gan symud ffocws ein polisi, ein hymarfer a'n hadnoddau tuag at atebion a arweinir gan dai hirdymor, ac i ffwrdd o ddarparu gwasanaethau hostel, gwasanaethau argyfwng a gwasanaethau dros dro.

Cyd-destun

Mae'r ffaith bod awdurdodau lleol ledled Cymru wedi gweithredu Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wedi gwneud llawer i atal unigolion a theuluoedd rhag mynd yn ddigartref – mwy na 2014 o aelwydydd ers 2015. Fodd bynnag, er bod cyfraddau atal yn dal i fod yn uchel ar 68% yn 2018-19, mae llawer gormod o bobl nad ydynt yn cael eu hatal rhag mynd yn ddigartref ac sy'n llithro drwy'r rhwyd. Mae'r galw ar wasanaethau awdurdodau lleol o dan ddyletswyddau Deddf 2014 yn cynyddu. Yn 2018-19, daeth awdurdodau lleol i gysylltiad â mwy na 10,000 o aelwydydd a oedd yn wynebu risg, a 11,500+ yn rhagor a oedd yn ddigartref ac yr oedd dyletswydd yn ddyledus iddynt.

Ethos y ddeddfwriaeth yw atal, ond mae atal go iawn yn dechrau'n llawer cynharach na'r 56 diwrnod a nodir yn y ddeddfwriaeth. Er mwyn atal go iawn, mae angen ymateb cyfannol gan y Llywodraeth – nid mater sy'n ymwneud â thai yn unig yw hwn. Dylid ystyried mai'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd yw'r **rhwyd ddiogelwch** pan fydd pob cam ataliol arall wedi methu.

Mae natur ymyriadau ataliol, a'r ffyrdd y cânt eu rhoi ar waith, yn amrywio. Y ffordd orau o'i ddisgrifio yw fel continwwm. Ar un pen mae'r camau gweithredu ehangach sy'n canolbwyntio ar y boblogaeth, e.e. ymgyrchoedd hybu iechyd ar fwyta'n iach. Ar y pen arall mae'r camau gweithredu ymatebol mewn argyfwng sydd eu hangen am fod sefyllfa wedi datblygu'n broblem ddifrifol iawn; yn argyfwng, e.e. derbyniadau aciwt i'r ysbyty

Un ffordd o ddisgrifio'r continwwm hwn yw:

- Atal Sylfaenol – Atal neu leihau'r risg y bydd problemau'n codi, a hynny fel arfer drwy bolisïau cyffredinol, e.e. addysg; hybu iechyd; gwaith rheoli tai da a chymorth tenantiaeth.
- Atal Eilaidd - Targedu unigolion neu grwpiau sy'n wynebu risg uchel neu'n dangos arwyddion cynnar o broblem benodol er mwyn ceisio ei hatal rhag digwydd, e.e. atgyfeirio'n gynnar at wasanaethau cymorth i deuluoedd neu gymorth ieuenctid.
- Atal Trydyddol – Ymyrryd pan fydd problem wedi codi er mwyn ei hatal rhag gwaethygu ac unioni'r sefyllfa, e.e. dileu ôl-ddyledion rhent er mwyn osgoi achos o droi allan.
- Gwario Acíwt – Gwario arian er mwyn rheoli effaith sefyllfa negyddol iawn – prin y mae hyn yn gwneud unrhyw beth, os o gwbl, i atal problemau rhag codi eto yn y dyfodol, e.e. cost tai dros dro pan fydd pobl yn cael eu gwneud yn ddigartref; cost hirdymor cefnogi plant sydd wedi dioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod o ganlyniad i golli cartref.

Ar hyn o bryd, mae'r gweithgarwch ym maes digartrefedd yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y pen difrifol ac, er mwyn i ni wireddu ein gweledigaeth, mae angen i'n dull gweithredu helpu pobl sy'n ddigartref ar hyn o bryd i gael llety, gan leihau'r llif o unigolion a theuluoedd sy'n mynd yn ddigartref ar yr un pryd, drwy fuddsoddi mwy mewn atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol.

Felly, mae ein nodau fel a ganlyn:

Ar unwaith – Cefnogi'r rhai sydd mewn argyfwng ar hyn o bryd;
Tymor byr / canolig – Symud ffocws tuag at atal go iawn ac ailgartrefu cyflym;
Tymor hir – Cynnal system lle mae digartrefedd yn brin ac yn fyrhoedlog a lle nad yw'n digwydd eto.

Cymorth i'r rhai sydd eisoes mewn argyfwng

Ceir nifer o gwestiynau allweddol y mae angen i ni roi sylw llawn iddynt er mwyn cefnogi'r rhai sydd eisoes yn ddigartref neu mewn argyfwng yn effeithiol. Yn gyntaf, mae angen i ni ddeall maint y broblem yn well i sicrhau ymateb digonol. Mae'r ystadegau statudol ar ddigartrefedd yn rhoi rhan o'r darlun, ond dim ond unigolion y mae gwasanaethau'n dod i gysylltiad â nhw y mae'r rhain yn eu cyfrif. Gwyddom fod llawer mwy o unigolion nad yw'r gwasanaethau'n ymwybodol ohonynt, sef pobl sy'n 'mynd o sofa i sofa' neu sydd mewn llety dros dro neu lety ansicr. Felly, mae **gwella data ar ddigartrefedd** yn allweddol.

Mae cwestiwn allweddol arall yn ymwneud ag effeithiolrwydd ymyriadau i helpu pobl i gael llety – mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi ymyriadau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae [Centre for Homelessness Impact](#) yn cydgysylltu ymdrechion ledled y DU i wella'r sail dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio, ac rydym yn cydweithio â nhw er mwyn **asesu a gwella effaith yr hyn a wnawn yng Nghymru**. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i roi arweiniad cliriach i awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd ymyriadau a chynorthwyo eu gwaith i gomisiynu gwasanaethau.

Mae angen i ni alluogi awdurdodau lleol i gael un olwg strategol ar ddigartrefedd yn eu hardal leol a chydweithio go iawn â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i fynd i'r afael â hynny. Mae newid i un **Grant Cymorth Tai**, sy'n cwmpasu Cefnogi Pobl ac Atal Digartrefedd, o fewn **Rhaglen Cymorth Tai**, yn cynnig cyfle i ddilyn dull gweithredu o'r fath. Bydd hyn yn gofyn am un strategaeth wedi'i chostio ar lefel leol ac yn sicrhau continwwm o wasanaethau i ddiwallu angen lleol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Er y caiff gwasanaethau eu comisiynu ar lefel leol, mae hefyd angen i ni hybu arloesed ledled Cymru a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu rhaglenni cenedlaethol a fydd yn ceisio cyflwyno dulliau gweithredu sicr, megis Tai yn Gyntaf, i Gymru. Nod **rhaglen Tai yn Gyntaf** yw cynorthwyo unigolion â rhai o'r anghenion mwyaf cymhleth ac, o ystyried pa mor ddwys ydyw o ran adnoddau, ni fydd yn addas i bawb. Felly, mae angen i raglen Tai yn Gyntaf fod yn rhan o ddull gweithredu **system gyfan** sy'n canolbwyntio yn y lle cyntaf ar atal digartrefedd a, lle na ellir gwneud hynny, ar sicrhau bod unigolion yn cael eu **hailgartrefu'n gyflym** mewn **llety hirdymor** a symud i ffwrdd o ddefnyddio llety dros dro.

Un agwedd allweddol ar ddull gweithredu system gyfan yw'r cymorth cofleidiol i unigolion, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau ieched. Mae hyn yn gofyn am fodolau darparu gwasanaethau amgen a berchnogir ac a ariennir ar y cyd gan wasanaethau cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys ieched meddwl, camddefnyddio sylweddau, gofal sylfaenol, diogelwch cymunedol a thai, er mwyn sicrhau bod **timau amlddisgyblaethol arbenigol** yn helpu unigolion i ddiwallu eu hanghenion a dilyn dull gweithredu **a gaiff ei lywio gan drama**.

Un grŵp sy'n wynebu risg uchel o ddigartrefedd ac sy'n aml mewn sefyllfa argyfyngus yw pobl sy'n gadael carchar, ac mae **rhoi'r llwybr carcharorion ar waith** yn llawn mewn partneriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ac awdurdodau lleol yn allweddol er mwyn atal cylch parhaus rhwng carchar a digartrefedd.


Atal go iawn ac ailgartrefu cyflym

Mae dull ataliol go iawn yn dechrau cyn i unigolyn neu deulu ddechrau wynebu'r risg o ddigartrefedd, hyd yn oed – mae'n golygu dull gweithredu system gyfan a buddsoddi mewn mesurau atal sylfaenol ac eilaidd.

Dyma sut rydym yn mynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Mae dulliau atal sylfaenol eisoes ar waith ac yn cael eu cefnogi drwy **ddiwygio addysg** gyda'r nod o gyflawni **pedwar diben** ein cwricwlwm newydd a chyflwyno'r **dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer ieched meddwl a llesiant**. Mae gwaith atal eilaidd sydd wedi'i

dargeddu'n fwy, drwy'r **gwasanaeth ieuentid** ac mewn cydweithrediad ag amrywiaeth o bartneriaid, yn ceisio adnabod a chefnogi pobl ifanc sy'n dechrau dangos rhai o'r ffactorau risg a all arwain at ddigartrefedd. Bydd buddsoddi mewn gwasanaethau ar y cam cynnar hwn er mwyn cefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd yn mynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt waethygu. Rydym hefyd yn ymrwymedig i sicrhau bod unigolion yn **pontio'n llwyddiannus o'r system ofal** i fyw'n annibynnol ac nad oes neb yn cael ei **ryddhau o sefydliadau diogel** na'i **ryddhau o'r ysbyty** i ddigartrefedd.

Ym maes tai, mae'n golygu **cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai** yn bennaf. Rydym yn ymrwymedig i adeiladu tai cymdeithasol yn gyflym ac ar raddfa fawr. Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn ei gwneud yn haws i bobl ymuno â'r **Sector Rhentu Preifat**, ac yn gwella ansawdd y sector hwnnw. Yn rhy aml o lawer, nid yw gwasanaethau rheoli tai, llety â chymorth a digartrefedd yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd. Gwaith **rheoli tai** effeithiol yw'r man cychwyn, gyda pholisïau **dyrannu** da sy'n cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed ac yn sicrhau bod aelwydydd yn cael eu gosod yn y llety a'r gymuned gywir gyda'r cymorth cywir – gan eu rhoi mewn sefyllfa i lwyddo o'r dechrau. Mae gwaith rheoli tai effeithiol hefyd yn golygu dilyn dull gweithredu a gaiff ei lywio gan drawma a helpu aelwydydd i gynnal eu tenantiaethau ac osgoi cael eu troi allan yn ddiangen. Mae angen gweithio gydag awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Sector Rhentu Preifat i **leihau nifer yr achosion o droi allan a chynyddu sicrwydd daliadaeth i bawb** – gyda'r nod o sicrhau **nad oes unrhyw denantiaid yn cael eu troi allan i ddigartrefedd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig**.



Mewn amgylchedd ataliol, dylai ffocws y gweithgarwch fod ar wasanaethau rheoli tai a chymorth tai, er mwyn atal y rhan fwyaf o aelwydydd rhag cyrraedd sefyllfa lle mae angen gwasanaethau digartrefedd statudol arnynt.

Prin, Byrhoedlog a Ddim yn Digwydd Eto

Er bod yr adnoddau'n canolbwyntio ar gefnogi'r rhai sydd eisoes yn ddigartref neu mewn argyfwng ar hyn o bryd, bydd symud y ffocws o atal yn gynharach, dros amser, yn cefnogi newid o ran ffocws adnoddau. Bydd adnoddau'n symud i ffwrdd o ddarparu llety argyfwng a llety dros dro ac, yn anorfod, bydd modd lleihau nifer yr hosteli a llochesau brys dros amser wrth i'r galw am y gwasanaethau hynny leihau. Yn lle hynny, bydd modd i adnoddau gefnogi atebion tai hirdymor ac addas, yn

ogystal â chefnogi gwasanaethau sy'n ymyrryd yn gynnar ac yn paratoi, yn cefnogi ac yn galluogi unigolion i fyw bywydau annibynnol a ffyniannus.

Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae digartrefedd yn beth anghyffredin a, phan fydd yn digwydd, ei fod yn fyrhoedlog a bod yr unigolyn neu'r aelwyd yn cael ei helpu i gael llety eto yn gyflym ac yn cael ei gefnogi'n ddigonol er mwyn sicrhau nad yw'n mynd yn ddigartref eto; gan roi aelwydydd mewn sefyllfa i lwyddo yn hytrach na methu

Mae gan wasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector rôl i'w chyflawni er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon. Mae pob un o Weinidogion Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r dull gweithredu hwn ac rydym yn gofyn i bob awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd, Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac eraill i ymrwymo iddo hefyd.

Os yw eich sefydliad chi wedi ymrwymo i'r dull gweithredu hwn, ac yr hoffech arwyddo'r Adduned Atal Digartrefedd, cysylltwch â AddunedAtalDigartrefedd@llyw.cymru